COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD MERCHER, 13 MAI 2026 AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – y Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | N Clarke | O Clatworthy | RJ Collins |
| C Davies | S Easterbrook | M J Evans | J Gebbie |
| RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths | GC Haines |
| M L Hughes | M R John | M Jones | W J Kendall |
| M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | JH Tildesley MBE | G Walter |
| A Wathan | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Presennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| S Aspey | E L P Caparros | P Davies |
| P Ford | P W Jenkins | D M Hughes |
| N Farr | RL Penhale-Thomas | R J Smith |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp – Cynllunio Cyfreithiol, Democrataidd ac Argyfwng |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jake Morgan | Y Prif Weithredwr |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD ac Etholiadau |

CYDYMDEIMLAD

Cyhoeddodd y Maer gyda thristwch fod dwy gyn-aelod a Maeresau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi marw’n ddiweddar, sef Cleone Westwood a Rosemary Deere.

Felly, gofynnodd y Maer i bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at y ddwy gyn-Gynghorwr..

## 270. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr aelodau canlynol:<br><br>Y Cyng RM James<br>Y Cyng WR Goode<br>Y Cyng C Davies<br>Y Cyng D Harrison<br>Y Cyng Alex Williams |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

## 271. Datganiad o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

## 272. Derbyn cyhoeddiadau gan y Maer, y Cynghorydd Huw David

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyhoeddodd y Maer fod Gwobrau Dinasyddiaeth y Maer yn dathlu unigolion a grwpiau sy'n gwneud |

| | |
|---|---|
| | cyfraniad eithriadol. Cyflwynwyd 27 o wobrau o'r fath eto eleni i unigolion a grwpiau ar draws ein cymunedau.<br><br>Un o'r enillwyr oedd Ceri Joseph. Hi yw'r grym sy'n gyrru amgueddfa Porthcawl, trysorfa o arteffactau lleol a hanes. Roedd Ceri a'r amgueddfa yn allweddol y llynedd yn nathliadau 200 mlynedd ers geni'r dref. Eleni dathlodd Maesteg ei 200fed pen-blwydd hefyd a dechreuodd ac arweiniodd enillydd gwobr ddinasyddiaeth arall, Rob Doyle, ŵyl anhygoel o ddigwyddiadau yn y dref sy'n parhau eleni.<br><br>Rydym yn ffodus i gael cymaint o sefydliadau gwych dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n newid bywydau a hyd yn oed yn achub bywydau ac roedd y Maer wrth ei fodd yn gallu cyflwyno gwobrau. Roedd yr enillwyr yn cynnwys Cefn Gwyrdd, Da Capo a Crescendo, Gorsaf Bad Achub RNLI Porthcawl, Clwb Hen Sir Pen-y-bont ar Ogwr, Grŵp Gofal Afon Llynfi a'r Amgylchedd, grŵp codi arian Marie Curie Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl a Chymorth Canser mewn Bywydau Lleol.<br><br>Mae ei optimistiaeth am y dyfodol wedi'i gryfhau gan y bobl ifanc y cyfarfu â hwy, gan gynnwys enillydd gwobr o'r enw Aspen Wolf Jones, oedd eisoes, ac yntau ond yn 6 oed, wedi helpu i drefnu bore coffi, cwblhau ras hwyl fach noddedig a chynnal cysgu allan er budd elusen. Enillydd gwobr arall oedd y glaslanc ymroddedig Morgan Pritchard sy'n gwirfoddoli'n anhunanol bob bore Sadwrn yn ei glwb brecwast lleol.<br><br>Mae bod yn rhan o seremonïau dinasyddiaeth ar gyfer dinasyddion newydd y DU wedi bod yn uchafbwynt arall yn y flwyddyn. Yn ddieithriad, mae'r bobl y cyfarfu â nhw yn y seremonïau hyn wedi bod yn gweithio'n galed iawn, yn aml yn rhedeg busnesau, yn gweithio yn y GIG, gofal cymdeithasol neu'r sector lletygarwch. Yn aml, maent wedi gwneud y daith honno i ddinasyddiaeth oherwydd bod eu partneriaid o'r fan hon yn y DU.<br><br>Diolchodd i bawb a gyfrannodd yn hael i'w ddwy elusen. Mae Make a Wish yn gwireddu breuddwydion i blant lleol sy'n delio â realiti dyddiol llym bywyd gyda salwch difrifol neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae Tŷ Hafan yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i deuluoedd lleol sy'n wynebu'r realiti annirnadwy hwnnw y bydd bywyd eu plentyn yn fyr. Ymweld â'r hosbis, cwrdd â phlant, teuluoedd, staff a gwirfoddolwyr oedd y profiadau mwyaf gostyngol ac emosiynol yn ei gyfnod fel Maer. Diolch arbennig i Castle Bingo ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd bob blwyddyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at elusennau'r Maer ac a fydd eleni yn rhoi rhodd o £2,000.<br><br>Roedd y Maer yn ddiolchgar iawn am y croeso cynnes iawn a dderbyniodd pryd bynnag a phwy bynnag y |

| | |
|---|---|
| | cyfarfu â hwy, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, elusennau, grwpiau gwirfoddol, ysgolion, colegau, addoldai, gwasanaethau brys.<br><br>Cadarnhaodd na fyddai wedi gallu ymgymryd â'r rôl heb y tîm gwasanaethau democrataidd effeithlon, proffesiynol ac amyneddgar iawn, yn enwedig Ruth a Nimi oedd yn cefnogi’r Maer ochr yn ochr â'u rolau ehangach o gefnogi pob aelod.<br><br>Yn olaf, diolchodd y Maer i bob un aelod am ei gefnogi yn ei rôl fel Maer.<br><br>Roedd gwasanaethu fel Maer y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn un o anrhydeddau a breintiau mwyaf ei fywyd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**273. Ethol y Maer am y cyfnod hyd at fis Mai 2027 yn unol ag Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Ethol y Cyng H Bennett yn Faer am y flwyddyn i ddod hyd at fis Mai 2027.<br><br>Dywedodd y Cyng Bennett ei bod yn anrhydedd enfawr iddi dderbyn swydd y Maer a hynny gyda diolchgarwch a gostyngeiddrwydd Ychwanegodd y byddai hi, yn ystod y flwyddyn i ddod, yn ceisio ymweld â phob rhan o’r Fwrdeistref Sirol yn ei swydd aruchel. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**274. Ethol y Dirprwy Faer am y cyfnod hyd at fis Mai 2027 yn unol ag Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd dau enwebiad ar gyfer swydd y Dirprwy Faer, sef y Cyng E Winstanley a’r Cyng A Wathan.<br><br>Cynhaliwyd pleidlais ar y ddau enwebiad, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:<br><br>O blaid – Y Cyng Winstanley – 26 |

| | |
|---|---|
| | O blaid – Y Cyng Wathan – 19<br><br>Dim atal pleidlais<br><br>PENDERFYNWYD: Ethol y Cyng E Winstanley yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn i ddod hyd at fis Mai 2027 |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**275. Ethol Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd dau enwebiad ar gyfer swydd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn 2026-2027, sef y Cyng J C Spanswick a'r Cyng R Penhale-Thomas. Felly, cynhaliwyd pleidlais i ethol Arweinydd, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-<br><br>O blaid - Y Cyng Spanswick - 29<br><br>O blaid- Y Cyng Penhale-Thomas - 14<br><br>Atal pleidlais - 6<br><br>PENDERFYNWYD: Ethol y Cyng JC Spanswick yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn i ddod hyd at fis Mai 2027.<br><br>Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelodau am yr hyder a roddwyd ynddo i fod yn Arweinydd yr Awdurdod unwaith eto a sicrhaodd yr Aelodau y byddai'n parhau i gymryd y rôl fawreddog hon o ddifrif calon er mwyn gwneud ei orau glas dros y Fwrdeistref Sirol a'r etholwyr sy'n byw yn ei chymunedau.<br><br>Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y byddai holl Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn uno yn yr her hon a diolchodd i'r aelodau a'r swyddogion am y gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod y 12 mis aeth heibio, ac yr oedd yn siŵr y byddai'n parhau yn 2026-2027.. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**276. Yr Arweinydd i Hysbysu'r Cyngor am yr aelodau i gael eu penodi i'r Cabinet gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Bortffolio**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dywedodd yr Arweinydd y byddai ei Gabinet yn cynnwys yr aelodau canlynol yn y portffolio a ddangosir isod:-<br><br>Y Cyng J Gebbie – Dirprwy Arweinydd/Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ,<br>Y Cyng H Williams – Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid<br>Y Cyng G Haines/ Y Cyng E Caparros – Aelod o'r Cabinet dros y Cymunedau a'r Amgylchedd (swydd yn cael ei rhannu)<br>Y Cyng M Evans – Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol<br>Y Cyng M Jones – Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc<br>Y Cyng C Jones – Aelod o'r Cabinet dros Adfywio a Thai |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

277. **Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Eraill y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a'i bwrpas oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i wneud y canlynol:<br><br>• Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r cyfryw Bwyllgorau eraill, Is-bwyllgorau, Paneli a chyrff ag y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi eu cadw i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;<br>• Cytuno i leihau aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu o 18 i 14 aelod;<br>• Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; a<br>• Nodi'r Protocol Aelodau Cyfetholedig a'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig.<br><br>Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd yr Atodiadau ategol canlynol:-<br><br>• Swyddogaethau pwyllgorau – Atodiad 1;<br>• Cydbwysedd gwleidyddol arfaethedig y Pwyllgorau, ac yn y blaen – Atodiad 2<br>• Strwythur Pwyllgorau arfaethedig – Atodiad 3<br>• Protocolau aelodau cyfetholedig gan gynnwys lwfansau – Atodiad 4 |

| | |
|---|---|
| | • Protocol Datrysiad Lleol CBSP<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:-<br><br>(1) Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r cyfryw Bwyllgorau eraill ag y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi eu cadw i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;<br><br>(2) Penderfynu maint a Chylch Gorchwyl y pwyllgorau hynny fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad; gan gynnwys cymeradwyo newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a lleihau maint y Pwyllgor Rheoli Datblygu o 18 i 16 aelod (ac nid 18 i 14 fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad) gyda chworwm o 8 aelod, a'r gwelliannau cysylltiedig i'r Cyfansoddiad;<br><br>(3) Penderfynu ar ddyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodwyd yn Atodiad 2 (o'r adroddiad) sydd wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu;<br><br>(4) Nodi gan ba grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor y mae hawl i benodi Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;<br><br>(5) Derbyn enwebiadau a phenodi Cynghorwyr i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, Paneli a chyrff eraill (yn unol â rhestr penodiadau aelodau'r Pwyllgor a rannwyd gydag Arweinwyr y Grwpiau ac a gadarnhawyd ar wefan CBSP):<br><br>• Y Panel Apêl<br>• Y Pwyllgor Penodi<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd<br>• Y Pwyllgor Rheoli Datblygu<br>• Y Pwyllgor Trwyddedu<br>• Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003<br>• Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Y Pwyllgor Safonau<br>• Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol<br>• Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |

| | |
|---|---|
| | • Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid<br>• Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai<br><br>(6) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau, y Paneli a'r cyrff eraill canlynol (fel y dangosir) gan nodi y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod cyntaf sydd wedi'i drefnu iddo yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd:<br><br>Y Panel Apêl – Cadeirydd. Derbyniwyd dau enwebiad, sef y Cyng W Kendall a'r Cyng R Smith. Felly cynhaliwyd pleidlais ar gyfer Cadeirydd y Panel hwn ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:<br><br>O blaid – Y Cyng Kendall – 25<br>O blaid – Y Cyng Smith – 18<br><br>Felly penodwyd y Cyng W Kendall yn Gadeirydd y Panel Apêl<br><br>Y Panel Apêl – Is-gadeirydd – y Cyng M Hughes (heb wrthwynebiad)<br><br>Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd – y Cyng T Thomas (heb wrthwynebiad)<br><br>Y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Derbyniwyd tri enwebiad i ddechrau, sef y Cyng D Hughes, y Cyng R Granville a'r Cyng M John. Yn dilyn pleidlais aeth y Cyng Granville a'r Cyng John ymlaen i ail bleidlais (gyda'r Cyng Hughes wedi ei adael allan oherwydd mai ganddo ef yr oedd y nifer leiaf o bleidleisiau).<br><br>Roedd canlyniad yr ail bleidlais fel a ganlyn:<br><br>O blaid – Y Cyng Granville - 28<br>O blaid - Y Cyng John – 16<br><br>Penodwyd y Cyng R Granville yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br><br>Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer bod yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, sef Y Cyng S Griffiths a'r Cyng M John. Felly, cynhaliwyd pleidlais ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:<br><br>O blaid – Y Cyng Griffiths – 25 |

| | | |
|---|---|---|
| | | O blaid – Y Cyng John – 18<br><br>Penodwyd y Cyng S Griffiths yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br><br>Y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003. Derbyniwyd tri enwebiad i ddechrau, sef y Cyng M Lewis, y Cyng S Bletsoe a'r Cyng R M James. Yn dilyn pleidlais aeth y Cyng Lewis a'r Cyng Bletsoe ymlaen i ail bleidlais (gyda'r Cyng James wedi ei adael allan oherwydd mai ganddo ef yr oedd y nifer leiaf o bleidleisiau).<br><br>Roedd canlyniad yr ail bleidlais fel a ganlyn:<br><br>O blaid – Y Cyng Lewis – 25<br>O blaid – Y Cyng Bletsoe – 17<br><br>Penodwyd y Cyng M Lewis yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003.<br><br>Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 – y Cyng R Williams (heb wrthwynebiad)<br><br>Cadeirydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned – Y Cyng J C Spanswick (heb wrthwynebiad)<br><br>Is-gadeirydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned – Y Cyng J Gebbie (heb wrthwynebiad) |
| | (7) | Nodi'r enwebiadau gan Arweinwyr y Grwpiau yn unol â darpariaethau paragraff 3.3 o'r adroddiad, a phenodi'r enwebeion hynny i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol:<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol – y Cyng Alex Williams (heb wrthwynebiad)<br>Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – y Cyng Freya Bletsoe (heb wrthwynebiad)<br>Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai – y Cyng Jon-Paul Blundell (heb wrthwynebiad)<br>Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid – y Cyng Heather Griffiths (heb wrthwynebiad) |

| | |
|---|---|
| | (8) Nodi'r Protocol Aelodau Cyfetholedig sydd ynghlwm yn Atodiad 4, a ddrafftiwyd yn unol ag Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;<br><br>(9) Nodi'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad 5 i'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

## 278. Rhaglen Arfaethedig Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn amlinellu'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau ar gyfer Mai 2026 i Ebrill 2027. Dywedodd y gallai cyfarfod y Gyllideb ym mis Chwefror 2027 gael ei newid, yn dibynnu ar amserlen cyhoeddi setliad Llywodraeth Cymru. Roedd rhagor o fanylion am gyfarfodydd eraill ar gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Nodwyd y byddai cyfarfod o'r Cyngor wedi ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2026.<br><br>Wedi ei atodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad, roedd rhaglen ddrafft y cyfarfodydd ar gyfer 2027-28 i'w nodi.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi gwneud y canlynol:<br><br>a. Cymeradwyo Rhaglen arfaethedig cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2026-2027 fel y nodwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad hwn, gan gynnwys cyfarfod o'r Cyngor dyddiedig 18 Rhagfyr 2026;<br><br>b. Cymeradwyo Rhaglen arfaethedig Cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2026-2027, fel y nodwyd hefyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad;<br><br>c. Nodi Rhaglen dros dro Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2027-2028, a nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad;<br><br>d. Nodi dyddiadau'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo sydd hefyd wedi cael eu nodi yn atodiadau'r adroddiadau i ddibenion gwybodaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

279. **Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol a Phwyllgorau Eraill**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i Banel Heddlu a Throseddu De Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd, Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru, Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ac Is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br><br>Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer pob un o'r swyddi uchod yn ddiwrthwynebiad.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi:<br><br>a) Derbyn yr enwebiadau ac wedi penodi'r nifer ofynnol o Aelodau i'r cyrff a'r pwyllgorau fel y dangoswyd yn atodiad 1, fel a ganlyn:<br><br><u>Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd</u><br><br>Aelod – y Cyng S Griffiths     Dirprwy aelod – y Cyng J P Blundell<br><br><u>Panel Heddlu a Throseddu De Cymru</u><br><br>Y Cyng M Jones<br><br><u>Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru</u><br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu<br><br><u>Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru</u><br><br>Y Cyng R Goode<br><br><u>Is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru</u><br><br>Y Cyng G Walter |

| | |
|---|---|
| | b) Dirprwyo awdurdod i'r swyddog Monitro i adolygu aelodaeth sefydliadol bresennol y Cyngor fel y manylwyd ym mharagraff 3.3 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**280. Arwisgo Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am 2026/2027**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo enwebiad y Cyng Heidi Bennett yn Faer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2026/2027, gwahoddwyd y Cyng Bennett gan y Maer oedd yn ymadael i dderbyn Swydd y Maer yn ffurfiol.<br><br>Derbyniodd y Cyng Bennett swydd y Maer ar lafar a thyngu'r llw canlynol:– "Rwyf i, y Cyng Heidi Bennett, yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn dwyn gwir deyrngarwch i'w Fawrhydi y Brenin, Siarl y Trydydd."<br><br>Llongyfarchodd y Cyng Huw David y Maer newydd. Cyhoeddodd y Cyng David hefyd mai Phoebe Evans fyddai'r Maer Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn ganlynol, tan 2027, ac mai Adam Cloutier fyddai'r Dirprwy Faer Ieuenctid. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**281.**

**282.**

**283. Arwisgo Cydymaith y Maer**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Arwisgwyd David Bennett yn gydymaith y Maer am 2026-2027. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

**280. Arwisgo Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am 2026/2027**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cadarnhaodd Y Cyng David, y Maer oedd yn ymadael, fod y Cyngor yn gynharach yn y trafodion wedi cymeradwyo enwebiad Y Cyng Winstanley yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn 2026-2027. Felly, gwahoddodd Y Cyng Winstanley i dderbyn y cynnig hwn yn y swydd. |

| | |
|---|---|
| | Derbyniodd y Cynghorydd Winstanley gynnig y Dirprwy Faer gyda phleser mawr, gan ychwanegu ei bod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Maer oedd newydd ei hethol, Y Cyng Heidi Bennett, yn y swydd anrhydeddus hon. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

## 283. Arwisgo Cydymaith y Dirprwy Faer

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyhoeddodd y Cyng David, y Maer oedd yn ymadael, nad oedd gan y Dirprwy Faer newydd unrhyw unigolyn fel Cydymaith am y flwyddyn i ddod, ond y byddai'n ceisio cael aelodau o'i chymuned i fynd gyda hi i ddigwyddiadau Dinesig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mai 2026 |

Er mwyn gwylio rhagor o’r ddadl a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon, os gwelwch yn dda

Daeth y cyfarfod i ben ar amser nas nodwyd